



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Derfynol 2024-25

Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi

Chwefror 2024

llyw.cymru

Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad	1
Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2024-25	4
Pennod 3: Dyraniadau terfynol Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25	9
Atodiad A: Rhestr o dermau ariannol	10

Pennod 1: Cyflwyniad

Trosolwg

- 1.01 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cyllideb Derfynol 2024-25, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb Derfynol yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae'n adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023.

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

- 1.02 Cafodd amseriad digwyddiad cyllidol Hydref Llywodraeth y DU effaith unwaith eto ar gyhoeddi'r Gyllideb eleni. Gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, rhoddodd Llywodraeth Cymru drefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb ar gyfer eleni.
- 1.03 Cafodd [cynlluniau gwario 2024-25](#); cynigion trethiant a benthyca; a chynigion portffolio manwl y gyllideb eu cyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2023.
- 1.04 Roedd y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn cwmpasu elfennau megis ffynonellau ein cyllid, pwerau benthyca a threthu, yn ogystal ag ystyried yn fanwl cynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd eu hadroddiadau ar y Gyllideb Ddrafft ar 5 Chwefror, cyn y ddatl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Senedd ar 6 Chwefror.
- 1.05 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwaith craffu ar ein cynigion ar gyfer y Gyllideb a ddarperir gan y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym wedi cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan holl Bwyllgorau'r Senedd a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r rhain cyn y ddatl ar y Gyllideb Derfynol ar 5 Mawrth.

Newidiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

- 1.06 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael dyraniadau cyllid canlyniadol Barnett pellach oddi wrth Lywodraeth y DU fel rhan o broses Amcangyfrifon Atodol y DU. Mae hyn yn cynnwys £231m o adnoddau ychwanegol, £8m mewn cyfalaf cyffredinol a gostyngiad o £38m i gyfalaf Trafodiadau Ariannol.
- 1.07 Er ei fod wedi'i ddarparu'n hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol 2023-24, mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu i gario rhywfaint o'r cyllid hwn ymlaen i 2024-25 drwy Gronfa Wrth Gefn Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae Trysorlys EF wedi darparu cyllid adnoddau ychwanegol o £43.9m y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio y tu allan i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2024-25.
- 1.08 Cawsom hefyd swm canlyniadol gwerth £25m o adnoddau yn deillio o gyhoeddiad yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, o gyllid ychwanegol ar gyfer setliad Llywodraeth Leol Lloegr i ymateb i bwysau mewn gofal cymdeithasol. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) ar 7 Chwefror yn nodi y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi llywodraeth leol yng Nghymru ac i wrthdroi'r

gostyngiadau a wnaed i grant y gweithlu gofal cymdeithasol yn y Gyllideb Ddrafft.

- 1.09 Mae dyraniadau pellach wedi cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Derfynol. Mae manylion y rhain i'w gweld ym Mhennod 2.
- 1.10 Rydym wedi cael cadarnhad gan Drysorlys EF o gyfalaf Trafodiadau Ariannol o £107m sydd ar gael yn 2024-25, gan roi cyfanswm o £133.2m. Yn ystod y Gyllideb Ddrafft dyrannwyd cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £31.8m, gyda dyraniadau pellach gwerth cyfanswm o £66.5m yn cael eu dyrannu adeg y Gyllideb Derfynol. Ceir manylion y dyraniadau ychwanegol hyn ym Mhennod 2.
- 1.11 Ochr yn ochr â'r mesurau a amlinellir uchod, mae'r Gyllideb Derfynol hon yn cynnwys nifer bach o newidiadau gweinyddol a chyfrifyddu a'r rhagolygon trethi diweddaraf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi . Mae manylion y rhagolygon treth wedi'u cynnwys yn niweddariad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r Rhagolwg Trethi Cymreig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.
- 1.12 Gan fod y Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn adeiladu ar fesurau sy'n bodoli eisoes, mae asesiad o'r effeithiau hyn eisoes wedi'i ddarparu yng [Nghyllideb Ddrafft 2024-25](#). Y newidiadau a gynhwysir yn y ddogfen hon yw addasiadau i'r cynlluniau gwariant a nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, felly nid oes Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i ddiweddarau wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol hon.

Diweddariad i'r Cyd-destun Economaidd 2024-25

- 1.13 Nid yw amodau economaidd a rhagolygon tymor agos wedi newid i raddau helaeth ers i Adroddiad y Prif Economegydd gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.
- 1.14 Gostyngodd allbwn y DU neu GDP yn nhrydydd a phedwerydd chwarterer y llynedd ac, am y flwyddyn gyfan, cynyddodd 0.1% yn unig. Gostyngodd GDP y person, sy'n sail i safonau byw yn llawer mwy na GDP cyfanredol, ym mhob chwarterer y llynedd. Ar gyfer y flwyddyn galendr 2023, gostyngodd GDP y pen 0.7%.
- 1.15 Mae rhagolwg economaidd diweddaraf Banc Lloegr yn awgrymu na fydd perfformiad yn gwella'n sylweddol yn fuan, ac fe ddisgwylir i GDP gynyddu 0.1% yn unig bob chwarterer eleni.
- 1.16 Yn y bôn, yn ôl y rhagolygon tymor byr bydd yr economi yn sefyll yn ei hunfan, gan barhau â phatrwm y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y tair blynedd hyd at ddiwedd 2024, disgwylir i GDP ehangu 1% yn unig, tua 4.5 pwynt canran yn brin o'r hyn a fyddai wedi'i gyflawni yn hanesyddol. Mae'r diffyg yn cyfateb i o leiaf £1,500 y pen ar draws y DU, gan gynnwys Cymru.
- 1.17 Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n annhebygol y bydd y farchnad lafur, sydd â momentwm cadarnhaol cyfyngedig ar hyn o bryd, yn tyfu ryw lawer. Mae anweithgarwch economaidd o ganlyniad i salwch yn dal yn destun pryder allweddol ledled y DU.

- 1.18 Mae chwyddiant blynyddol prisiau defnyddwyr bellach yn 4.0%, i lawr o fwy na 10.0% flwyddyn yn ôl. Oherwydd gweithrediad cap Ofgem ar brisiau ynni yn rhannol, bydd chwyddiant - yn ôl Banc Lloegr - yn agos at darged Llywodraeth y DU o 2.0% dros fisoedd y gwanwyn ac efallai y bydd yn codi ychydig ar ôl hynny.
- 1.19 Mae benthyca gan Lywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 yn is na rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a baratowyd ar gyfer Datganiad yr Hydref fis Tachwedd diwethaf. Er hynny, nid yw'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer cyllid cyhoeddus wedi newid i bob pwrpas.
- 1.20 Oni bai y bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd, bydd OBR yn dweud wrth y Canghellor nad oes fawr o le iddo fod yn rhy hael yng Nghyllideb y Gwanwyn os bwriedir iddo fodloni ei brif darged cyllidol. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi cynghori'r Canghellor y dylai gwariant cyhoeddus a chyfuno dyled gael blaenoriaeth dros doriadau treth sy'n cael eu hystyried yn ôl y sôn.

Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2024-25

- 2.01** Amlinellir y newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn y bennod hon.
- 2.02** Dylid darllen y ddogfennaeth hon ar y gyllideb ar y cyd â'r dull cyllido amlflwyddyn a gyhoeddwyd yn flaenorol (Cyllidebau Drafft a Therfynol 2022-23, sy'n darparu cynlluniau o 2022-23 i 2024-25). Mae'r dogfennau hyn ar gael ar [dudalennau gwe](#) Llywodraeth Cymru.
- 2.03** Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar newidiadau i Gyllideb Derfynol 2024-25 yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y Gyllideb Ddrafft. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl; blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo modd; sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf; ac ailffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.
- 2.04** Drwy gydol y broses hon, rydym wedi cael ein harwain hefyd gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym wedi parhau i gynnal ein dull o ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud, a'r angen i weithredu nawr i atal yr effeithiau gwaethaf ar wasanaethau. Rydym wedi gweithredu yn y tymor byr i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- 2.05** Trwy eu gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, nododd pwyllgorau'r Senedd gynigion a chynlluniau gwariant yr oedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod eu bod yn annhebygol o gael eu gweithredu pe bai'r cyllid canlyniadol wedi'i nodi cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft. Mae manylion llawn y dyraniadau cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU, fel rhan o broses Amcangyfrifon Atodol y DU, wedi dod yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol, gan wneud pennu cyllideb a chynllunio'n anodd iawn.
- 2.06** Mae hysbysiad hwyr o'r fath wedi arwain at orfodi Llywodraeth Cymru i wneud dewisiadau penodol, a allai fod wedi cael eu hosgoi pe byddem wedi derbyn yr wybodaeth hon ar yr un pryd ag adrannau eraill Whitehall. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Gyllideb Derfynol, rydym hefyd wedi ystyried meysydd o wariant ataliol pellach, fel y nodwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb.

Adnoddau

- 2.07** Rydym yn dyrannu £14.436m yn ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Mae'r awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, yn aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i bobl sydd o dan anfantais yn economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sylweddol i blant, drwy ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, ac ystod eang o wasanaethau i oedolion a allai fod yn wynebu heriau yn eu bywydau bob dydd, trwy wasanaethau cymdeithasol, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol eraill. Rydym yn

cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu awdurdodau lleol ac wedi darparu'r cyllid hwn drwy'r setliad heb ei neilltuo i roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddyrannu'r cyllid yn ôl eu blaenoriaethau lleol.

- 2.08** Yn ogystal, rydym yn darparu £10.564m i adfer Cronfa'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, gan wrthdroi'r gostyngiad a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau â'n hamcanion i wella gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu proffesiynol o safon. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r effeithiau ar awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol a allai effeithio ar bobl anabl, pobl hŷn, ac aelodau mwyaf agored i niwed a difreintiedig cymdeithas.
- 2.09** Rydym yn adfer £5m ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau i wrthdroi llawer o'r ailflaenoriaethu yr oedd yn rhaid i ni ymgymryd ag ef fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft. Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd y cyllid hyblyg hwn sy'n ceisio diwallu anghenion cymorth plant ac oedolion difreintiedig sy'n aml yn agored i niwed yn ein cymunedau drwy ystod o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth.
- 2.10** Rydym yn dyrannu £5m i'r gyllideb atal digartrefedd a chymorth digartrefedd, i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau ataliol i gyflawni ein huchelgais hirdymor i roi terfyn ar ddigartrefedd.
- 2.11** Rydym hefyd yn dyrannu £5.25m ar gyfer prentisiaethau i gynnig mwy o gyfleoedd i ddechrau prentisiaeth. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd prentisiaethau i gyflawni ein nodau o ran atal hirdymor, cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi, sicrhau canlyniadau ehangach gwell yn y tymor hwy, a chefnogi twf economaidd.
- 2.12** Mae Llywodraeth Cymru yn sefyll gyda'n sector dur, a'r cymunedau a'r unigolion hynny yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau masnachol a wneir gan Tata. O ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu gweithwyr, rydym yn barod i chwarae ein rhan. Byddwn yn buddsoddi £4.75m yn ein rhaglenni cyflogadwyedd gan gynnwys ReAct+, Cymunedau am Waith + a Thwf Swyddi Cymru+, gan roi hwb i'r buddsoddiadau presennol er mwyn ein galluogi i wneud yr hyn a allwn i atal y canlyniadau gwaethaf i gymunedau dur Cymru.
- 2.13** Rydym yn dyrannu £1.5m o gyllid adnoddau ar gyfer cyflawni ein Cronfa Ardrethi Annomestig a fydd yn cefnogi busnesau i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyllid cyfalaf a amlinellir yn yr adran nesaf ac y cytunwyd arno fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft.
- 2.14** Rydym yn darparu £1.4m i gydnabod yr effeithiau a nodwyd drwy graffu ar Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Dylai'r cynnydd hwn helpu i liniaru rhai o'r effeithiau gwaethaf ar gyflawni'r swyddogaethau statudol ar gyfer diogelu ein hamgylchedd hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a chefnogi dysgu gydol oes, ymweliadau addysgol, gwirfoddoli a chyfranogi, dehongli henebion, digwyddiadau nad ydynt yn cynhyrchu incwm a chymorth i sefydliadau trydydd sector.
- 2.15** Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru rydym wedi gwneud dyraniadau ychwanegol mewn nifer o feysydd. Byddwn yn darparu £225,000 i fwrw ymlaen â'r camau nesaf tuag at sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a £1m ar gyfer gwaith ar ddiwygio cyfansoddiadol. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ar fentrau

trafnidiaeth pwysig. Rydym wedi cyhoeddi papur ar y cyd sy'n nodi ystod o feysydd y cafwyd cytundeb arnynt lle mae dyraniadau wedi'u gwneud.

Cyfalaf

- 2.16** Rydym yn darparu £40m i'r GIG ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol sy'n cynnwys £10m sydd wedi'i dargedu at wariant ataliol a mesurau i gefnogi'r GIG i ddod yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol.
- 2.17** Rydym yn dyrannu £18.5 miliwn o gyfalaf i greu ein Cronfa Ardrethi Annomestig i gefnogi busnesau i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol, fel y cytunwyd fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Bydd y gronfa yn anelu at gefnogi tua 2,500 o fusnesau bach a chanolig cymwys yn y sectorau manwerthu, hamdden, twristiaeth a lletygarwch, i fuddsoddi mewn mesurau i ddiogelu eu busnes at y dyfodol.
- 2.18** I gydnabod pwysigrwydd tai i helpu i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, rydym yn dyrannu £5m ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad allweddol i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu.
- 2.19** Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynnal ein Porthladdoedd Môr yng Nghymru, rydym yn dyrannu £10m, ynghyd â £20m o gyfalaf Trafodiadau Ariannol, i gefnogi'r gwaith o ailwampio Morglawdd Caergybi. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu dyfodol yr ail gyfleuster gyrru i mewn ac allan prysuraf ar gyfer cerbydau cludo nwyddau yn y DU.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

- 2.20** Mae cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn ffurf benodol o gyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth y DU gydag amodau ar ei ddefnydd. Mae angen ad-dalu cyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth y DU.
- 2.21** Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiad cyfalaf Trafodiadau Ariannol drwy fuddsoddi mwy na £2.2bn mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cefnogi busnesau a'r sector tai, gan roi budd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi.
- 2.22** Yn ogystal â'r £31.8m a ddyrannwyd gennym yn y Gyllideb Ddrafft, rydym yn dyrannu £66.5m arall i gyflawni ein blaenoriaethau yn y [Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#) 10 mlynedd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2021.
- 2.23** Amlinellir manylion y dyraniadau isod:
- £7.7m ar gyfer Transport for Wales Fibre Limited i gefnogi masnacheiddio capasiti gormodol rhwydwaith ffeibr y rheilffyrdd.
 - £10m i'w fuddsoddi yn ein sector lled-ddargludyddion.
 - £4m i Fanc Datblygu Cymru helpu i gefnogi perchnogion tai i ôl-osod a datgarboneiddio eu cartrefi drwy ariannu pypmpiau gwres a phaneli solar.
 - £4.8m i Morlais Menter Môn gefnogi dyfeisiau ffrwd lanw.
 - £20m i gefnogi adnewyddu Morglawdd Caergybi.
 - £20m wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau'r Cytundeb Cydweithio yn ymwneud â thai.

Newidiadau gweinyddol

- 2.24** Rydym yn gwneud nifer o newidiadau gweinyddol rhwng Prif Grwpiau Gwariant (MEG) gan ymateb i ystod o faterion sydd wedi codi ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi.
- 2.25** Mae sawl newid technegol i adnoddau cyllidol rhwng portffolios Gweinidogol yn y Gyllideb Derfynol hon. Ceir enghreifftiau o'r rhain isod, gyda'r manylion llawn yn y tablau cysylltiedig:
- Trosglwyddiad o £7.603m (adnoddau) o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i ariannu trosglwyddo nawdd gweinidogol Llais – corff llais y dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
 - Trosglwyddiad o £9.767m (adnoddau) o'r MEG Newid Hinsawdd i'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.
- 2.26** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng portffolios Gweinidogol, ceir nifer o drosglwyddiadau rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn yr un portffolios, sydd wedi'u cynnwys yn y tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn weinyddol eu natur yn gyffredinol ac nid oes unrhyw effaith net ar y cyfansymiau MEG unigol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Trosglwyddiad o £20.737m (adnoddau) o Gostau Pontio Canolog yr UE (BEL 7070) i Gostau Staff (BEL 6720) i sicrhau bod y costau a'r gyllideb yn cyd-fynd â'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
 - Trosglwyddiad o £9.547m (adnoddau) o'r BEL 020 yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r BEL 035 yn yr un MEG ar gyfer newidiadau cylchol y cytunwyd arnynt i'r llinell sylfaen ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer Ynni, Covid-19 a chynnydd craidd yn 2024-25
 - Trosglwyddiad o £4.248m (adnoddau) o'r BEL 020 yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r BEL 030 yn yr un MEG ar gyfer newidiadau cylchol y cytunwyd arnynt i'r llinell sylfaen ar gyfer Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ar gyfer Ynni a Covid-19 ar gyfer 2024-25.
 - Trosglwyddiad o £4.013m (adnoddau) o'r BEL 020 yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r BEL 250 yn yr un MEG ar gyfer newidiadau cylchol y cytunwyd arnynt i'r llinell sylfaen ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Ynni a Covid-19 ar gyfer 2024-25.
- 2.27** Yn y portffolios, mae sawl BEL o fewn y portffolios Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi'u hailenwi i adlewyrchu'r gweithgaredd priodol yn gywir a'r cylch gwaith ehangach. Darperir manylion y newidiadau hyn yn y Tablau BEL.

Cyfuno grantiau (lleihau beichiau gweinyddol)

- 2.28 Bydd rhagor o gyfuno Grantiau Awdurdodau Lleol yn digwydd fel rhan o'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i leihau beichiau gweinyddol ar awdurdodau lleol, yn ogystal ag uno'r grantiau a amlygwyd yn y Gyllideb Ddrafft.
- 2.29 Bydd tri throsglwyddiad i'r setliad Llywodraeth Leol drwy'r Grant Cynnal Refeniw:
- Trosglwyddiad o £4.950m (adnoddau) o'r MEG Newid Hinsawdd i'r Meg Cyllid a Llywodraeth Leol i adlewyrchu throsglwyddiad y grant gweinyddu ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordi
 - Trosglwyddiad o £0.880m (adnoddau) o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i ariannu'r throsglwyddo'r grant ar gyfer y fframwaith perfformiad a gwella am flwyddyn.
 - Trosglwyddiad o £0.2m (adnoddau) yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol sy'n ymwneud â throsglwyddo'r gronfa claddu plant i'r setliad.

Pennod 3: Dyraniadau terfynol Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

- 3.01** Adlewyrchir y newidiadau a ddisgrifir ym mhennod 2 yn y cynlluniau gwariant diwygiedig a nodir yn y tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwariant (llyfr gwaith .ods) a gyhoeddir ar [dudalen gwe](#) Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2024-25.
- 3.02** Nodir y newidiadau manwl i gynigion y Gyllideb rhwng cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn 2024-25 yn [nhablau BEL](#) Cyllideb Derfynol 2024-25, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.
- 3.03** Mae'r tablau yn y [llyfr gwaith .ods](#) yn cynnwys:
- Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru (Tab 1)
 - Dyrannu Cyllideb Cymru (Tab 2)
 - Crynodeb o Gyfanswm Dyranadau MEG Llywodraeth Cymru (Tab 3)
 - Newidiadau i Ddyranadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru (Tab 4)
 - Newidiadau i Ddyranadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru (Tab 5)
 - Newidiadau i Ddyranadau AME MEG Llywodraeth Cymru (Tab 6)
 - Mapio Dyranadau'r Gyllideb Cyfalaf i Feysydd Buddsoddi a Sectorau (Tab 7)
 - Cysoni rhwng y Gyllideb Weinyddol a Dyranadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol (Tab 8)
 - Cyfres o dablau sy'n dangos newidiadau o flwyddyn i flwyddyn (Tabiau 9 a 9a)
 - Cyfanswm - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Cyfanswm - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall - termau real
 - Adnodd cyllidol - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Adnodd cyllidol – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall - termau real
 - Adnodd anariannol – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Adnodd anariannol – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall – termau real
 - Cyfalaf cyffredinol - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Cyfalaf cyffredinol – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Cyfalaf Trafodiadau Ariannol - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Cyfalaf Trafodiadau Ariannol – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall – termau real
 - Adnoddau AME - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Adnoddau AME – Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall - termau real
 - Cyfalaf AME - Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall
 - Cyfalaf AME – Newid canrannol un o flwyddyn i'r llall - termau real

Atodiad A: Rhestr o dermau ariannol

Cam Gweithredu

O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.

Cwmpasoedd

Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan y Senedd i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. Caiff gwariant awdurdodau lleol a gyllidir drwy Ardrethi Annomestig ei gynnwys mewn cyllidebau AME hefyd.

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn [Cyllidebau Llywodraeth Cymru](#).

Fformiwla Barnett

Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennir i Lywodraeth Cymru (ac i'r Llywodraethau Datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth â'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso hefyd i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i bennu ar 5% yn ychwanegol.

Cynnig y Gyllideb

Y dull a ddefnyddir gan y Senedd i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Cyfalaf

Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Terfyn y gyllideb amflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.

Dibrisiant

Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.

Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru

Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol y mae cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf na ellir ei ddefnyddio ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys EF.

DEL Adnoddau Cyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau sydd bron yn arian parod')

Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.

Prif Grŵp Gwariant (MEG)

Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir wyth MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

DEL Adnoddau Anghyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')

Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariadau o ran benthyciadau i fyfyrwyr a dibrisiant. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.

Derbyniadau

Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Cyllidebu adnoddau

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys codi swm am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.

Adnoddau (a elwid gynt yn 'refeniw')

Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu gwasanaethau a nwyddau traul.

Adolygiad o Wariant

Bob dwy neu dair blynedd, mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys EF i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.

Cylch Gwario

Mae'r Cylch Gwario yn broses a arweinir gan Drysorlys y DU i ddyrannu adnoddau ar draws yr holl adrannau llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nid yw'n cynnwys diwygiad i ragolygon trethi.

Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)

Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Cronfa Wrth Gefn Cymru

Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel dull i alluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb ar draws cyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w defnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa.

Cronfa Gyfunol Cymru

Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.

CNLC

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.